*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **29 Ionawr 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch** |
| Pwnc | **Swyddfa Archwilio Cymru – Atodiad i'r adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio atodiad i'r adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol 2016/17 gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn dilyn yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2016/17, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi llunio atodiad i'w adroddiad ar Archwilio Datganiadau Ariannol y bu'r Awdurdod Tân yn ei ystyried ym mis Medi 2017. Mae'r atodiad i'r adroddiad yn nodi'r argymhellion sy'n deillio o'u gwaith archwilio.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r argymhellion ac ymateb y rheolwyr iddynt, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer eu rhoi ar waith.

**CEFNDIR**

4 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd statudol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**GWYBODAETH**

5 Cafodd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon eu crynhoi yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Archwilio Datganiadau Ariannol y bu aelodau'r Awdurdod yn ei ystyried yn y cyfarfod ar 18 Medi 2017. Mae'r adroddiad hwnnw yn nodi y byddai adroddiad arall yn cael ei gyhoeddi i nodi'r argymhellion a oedd yn deillio o'r gwaith archwilio ariannol. Mae'r rheolwyr wedi derbyn yr holl argymhellion ac mae'r adroddiad yn nodi ymateb y rheolwyr a'r dyddiadau gweithredu arfaethedig.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'n adrodd ynghylch hyfywedd ariannol y gwasanaeth a'r risgiau a allai godi yn y dyfodol ac a allai effeithio ar y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. |
| Cyllideb | Mae'r datganiadau cyfrifyddu a archwiliwyd yn nodi'r union incwm a gwariant o gymharu â'r gyllideb, ac maent yn galluogi'r archwilwyr i roi barn i ddweud a yw'n credu eu bod yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ai peidio. |
| Cyfreithiol | Mae archwilio'r cyfrifon yn swyddogaeth statudol sy'n cael ei chyflawni gan yr archwilydd penodedig. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Os nad yw'r argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu gweithredu yn unol â'r cynllun, gall yr archwilwyr gymryd camau pellach i sicrhau cydymffurfiaeth. |